CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**DYLAN J. WILLIAMS** BA (Hons), MSc, MA, M.R.T.P.I.
Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Head of Service – Regulation and Economic Development

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Canolfan Fusnes Môn • Anglesey Business Centre
Parc Busnes Bryn Cefni • Bryn Cefni Business Park
LLANGEFNI
Ynys Môn • Isle of Anglesey
LL77 7XA

ffôn / tel: (01248) 752499
ffacs / fax: (01248) 752192

Gofynnwch am / Please ask for: Dylan Williams
E-bost / Email: DylanWilliams@ynysmon.gov.uk
Ein Cyf / Our Ref: EN010007
Eich Cyf / Your Ref: EN010007

Dyddiad / Date: 10th April 2019

Ms Kay Sully,
The Planning Inspectorate,
National Infrastructure Planning,
Temple Quay House,
2, The Square,
Bristol,
BS1 6NP

Annwyl Kay,

**Archwiliad DCO Wylfa Newydd EN010007 – Cyflwyniad i Ddyddiad Cau 9**

Mae CSYM wedi adolygu cyflwyniad Horizon i Ddyddiad Cau 8 ac mae'n gwneud y sylwadau a ganlyn;

**1. Gorchymyn Caniatâd Datblygu – REP8-029**

**Diffiniad: diffiniad o cychwyn**

Mae CSYM yn nodi'r addasiad i'r diffiniad o cychwyn i gyfyngu maint strwythurau i uchafswm uchder o ddau lawr ar waith penodedig. Mae CSYM yn croesawu rhywfaint o gyfyngiad ond mae ganddo bryderon ynglŷn ag ehangder hyn yn enwedig mewn perthynas â chyfleuster Parcio a Theithio Dalar Hir ac mae'n cwestiynu pam y byddai dau lawr yn angenrheidiol ar y safle hwn o gofio'r sicrwydd a gafodd lawer gwaith gan Horizon y byddai'r gweithlu yn y lleoliad hwn yn fach iawn. Mae CSYM yn gofyn bod y diffiniad yn cael ei addasu er mwyn sicrhau bod uchafswm uchder strwythurau ar y gwaith penodedig yn cael ei gyfyngu i un llawr.

**Diffiniad: diffiniad o cynnal a chadw**

Mae CSYM yn nodi bod Horizon yn cadw ei safiad ar y diffiniad ac mae CSYM yn gwneud hynny hefyd. Mae CSYM yn parhau i ddweud y dylai'r diffiniad fod wedi'i gyfyngu er mwyn gwarchod cymunedau a sicrhau bod modd ei orfodi. Mae CSYM yn parhau i ofyn y dylai'r diffiniad gael ei addasu fel yr amlinellir yn REP4-034 i:

*mae "cynnal a chadw" yn cynnwys arolygu, atgyweirio, addasu, newid, gwella, tirlunio, gwarchod, cael gwared â, ailadeiladu, ailwampio, neu amnewid unrhyw ran o'r datblygiad awdurdodedig, cyn belled â nad yw gwaith o'r fath yn arwain at unrhyw effeithiau amgylcheddol sy'n sylweddol newydd neu'n sylweddol wahanol i'r rheini a nodwyd yn y Datganiad Amgylcheddol, neu'n amrywio'r datblygiad awdurdodedig fel y disgrifid yn Atodlen 1 (Datblygiad awdurdodedig), ac mae'n rhaid i unrhyw ferf eilradd o "cynnal a chadw" gael ei dehongli'n unol â hynny a bydd yn destun y canlynol:*

*Ar gyfer Gwaith Rhif [1 a 4] bydd cynnal a chadw hefyd yn cynnwys ailosod, ymestyn neu ehangu unrhyw ran o'r Gwaith hynny; a phan fod y Gwaith o natur dros dro a bod digomisiynu neu adfer Gwaith o'r fath wedi cychwyn, ni chaniateir gwneud unrhyw waith fel gwaith cynnal a chadw nad oes ei angen at ddibenion gwneud y gwaith digomisiynu neu adfer.*

**Diffiniad: diffiniad o awdurdod cyflawni ac ymgynghorai gwaith morol**

Mae CSYM yn derbyn y llinell awdurdod ar bwynt y Cymedr Penllanw Mawr (MHWS) cyhyd â bod eglurhad o'r

diffiniad o ymgynghorai gwaith morol yn darllen fel a ganlyn:
*yn golygu naill ai CSYM a CNC neu'r ddau lle dylid ymgynghori â CSYM yng nghyswllt unrhyw Ofynion Gwaith Morol sy'n ymwneud â thir tua'r môr o'r MHWS a lle dylid ymgynghori â CNC yng nghyswllt gwaith sy'n ymwneud â thir uwchlaw'r MHWS.*

**Erthygl 10 amddiffyniad i achosion llys yng nghyswllt niwsans statudol**

Mae CSYM yn nodi safiad Horizon fod y CoCPs wedi'u gwneud yn fwy penodol ac felly y dylid cadw Erthygl 10(1)(a)(iii). Mae CSYM yn cynnal ei safiad fel mae wedi mynegi'n flaenorol ynglŷn â hyn fod yr amddiffyniad hwn yn rhy eang o gofio lefel y manylder yn y CoCPs a'r diffyg manyleb o fanylder yn y dogfennau hynny ac mae'n gofyn bod Erthygl 10(1)(a)(iii) yn cael ei dileu.

**Erthygl 27 caffael hawliau yn orfodol**

Mae CSYM yn croesawu ail-gyflwyniad paragraff 6 fel y cytunwyd yn y gwrandawiadau.

**Erthygl 31 caffael isbridd yn unig**

Yng nghofrestr materion sy'n weddill y DCO (REP8-004), mae Horizon yn nodi bod CSYM wedi gofyn o'r blaen iddo nodi'n benodol pa isbridd mae'n ei gaffael. Roedd hyn mewn perthynas â chaffael gorfodol sy'n effeithio ar briffyrdd lle roedd Horizon wedi cynnig mai ei sail resymegol dros gynnwys priffyrdd cyhoeddus oedd bod angen i Horizon allu caffael yr isbridd ar briffyrdd cyhoeddus er mwyn ymgymryd â'u gwaith.

Gan fod y darpariaethau gwarchodol er budd CSYM fel yr awdurdod priffyrdd lleol yn mynd rhagddynt yn foddhaol, nid yw'r Cyngor yn mynd ar ôl yr eglurhad hwn bellach gan fod ei fuddiannau'n cael eu gwarchod yn briodol erbyn hyn.

**Erthygl 74 tir gweithredol at ddibenion Deddf 1990**

Mae'r Cyngor yn parhau i gynnal y safiad fel yr amlinellwyd yn flaenorol na ddylai'r safleoedd datblygu cysylltiedig gael eu hystyried fel tir gweithredol at bwrpas y gwaith o gynhyrchu trydan gan nad ydynt yn cael eu defnyddio, ac nad oes eu hangen, at y pwrpas o gynhyrchu trydan. Nid oes ond eu hangen ar gyfer adeiladu'r orsaf bŵer ac mae'n afresymol gadael iddynt elwa o hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer cynhyrchu trydan.

**Erthygl 83 Gwarantau yng nghyswllt taliadau iawndal ac Erthygl 84 Cyllid ar gyfer gweithredu'r datblygiad awdurdodedig**

O ran gwarantau ar gyfer iawndal a chyllid ar gyfer y datblygiad, fel yr amlinellwyd gan CSYM yn y Gwrandawiadau ar Faterion Penodol ym mis Mawrth, mae CSYM yn fodlon gyda'r erthyglau hyn.

**Atodlen 3 – Gofyniad PW2 strategaeth fesul cyfnod**

Mae CSYM yn fodlon gyda geiriad gofyniad PW2 gan gynnwys y gofyniad i ymgynghori â Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae CSYM yn gwneud sylwadau ar wahân ar gynnwys y strategaeth fesul cyfnod drafft yn Adran 9 y llythyr hwn.

**Atodlen 3 – Gofyniad PW3 datganiad dull adeiladu**

Mae CSYM yn nodi nad oes ganddo unrhyw wrthwynebiad i CNC fod yn ymgynghorai penodedig ar y Datganiad Dull Adeiladu. Mae CSYM yn ystyried, gan fod hyn yn cwmpasu gwaith yr orsaf bŵer a gwaith ar gampws y safle yn ogystal â'r gwaith morol, ei bod yn briodol mai CSYM sy'n ei gyflawni.

**Atodlen 3 – Gofyniad PW8 Ymddygiad gweithlu Wylfa Newydd**

Mae CSYM yn croesawu'r addasiad i'r gofyniad hwn sef y gofyniad i ymgynghori gyda CSYM a Heddlu Gogledd Cymru.

**Atodlen 3 – Gofyniad PW12 Cynllun Isadeiledd Digidol**

Mae CSYM yn croesawu'r diwygiadau a wnaed i'r gofyniad sydd bellach yn gadael i'r Cyngor dderbyn yr asesiad a wnaed o dan y gofyniad hwn. Mae'r Cyngor hefyd yn croesawu'r ffaith fod sgôp yr asesiad technegol a'r Cynllun Isadeiledd Digidol dilynol wedi cael ei ddiwygio a'i fod bellach yn cynnwys ystyriaeth o'r capasiti symudol a band llydan ar draws Gogledd Ynys Môn.

**Atodlen 15 – Darpariaethau gwarchodol rhan 8: Gwarchodaeth i briffyrdd**

Mae CSYM yn nodi na fu cytundeb ynghylch y darpariaethau gwarchodol o'i blaid ef fel awdurdod priffyrdd a'r awdurdod llifogydd lleol arweiniol, ar Ddyddiad Cau 8, a bod y fersiwn a gyflwynwyd ar ddyddiad cau 8 wedi cael ei diwygio bellach. Mae'r fersiwn ddiwygiedig honno wedi ei chytuno erbyn hyn. Mae copi o'r darpariaethau fel y cytunodd CSYM arnynt wedi eu cynnwys yn Atodiad B.

**Atodlen 19 y weithdrefn ar gyfer cymeradwyaethau, caniatadau ac apeliadau**

**- *Ffioedd***

Mae CSYM yn nodi bod Horizon unwaith eto yn cyfeirio at y ffioedd a ddarperir i'r Cyngor o dan y cytundeb adran 106. Mae'r Cyngor unwaith eto yn cyfeirio'r Awdurdod Archwilio at y cytundeb adran 106 sy'n darparu na fydd yr un o'r ffioedd hyn yn daladwy hyd nes gweithredir y datblygiad. Bydd hyn gryn amser wedi'r adeg pan fydd gofyn cyflawni'r mwyafrif o'r gofynion a phan fydd yr holl waith ar gyfer cyflawni'r gofynion hynny wedi'i gyflawni. Nid yw'r ffioedd cytundeb adran 106 wedi eu dylunio i gwmpasu'r gwaith o gyflawni gofynion.

Mae cyfuniad y ffioedd ar gyfer monitro'r datblygiad a'r gwaith sydd ei angen i gyflawni'r gofynion cyn cychwyn y datblygiad yn gamarweiniol. Mae'r awgrym y gallai CSYM yn syml ailddyrannu'r ffioedd hyn i dalu am waith a wnaed yn barod, ac y mae wedi gorfod ei ariannu eisoes, yn anwybyddu'r ffaith fod y ffioedd hyn eisoes wedi eu dyrannu i bwrpas arbennig ac nad oes modd eu defnyddio ddwywaith.

Yn dilyn trafodaethau diweddar yn y Gwrandawiad ar Faterion Penodol, mae'r Cyngor wedi drafftio Cynnig Ffioedd diwygiedig ar gyfer cyflawni gofynion. Mae copi o'r cynnig hwn yn Atodiad C.

Oherwydd cyfaint a chymhlethdod y materion sydd i'w cyflawni o dan ofynion mawr, mae CSYM yn ystyried bod ffioedd sy'n adlewyrchu'r lefel a osodwyd yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 yn darparu canllaw priodol, ac mae'r ffioedd arfaethedig yn cyd-fynd â'r rhain. Mae hyn oherwydd bod y materion a fydd yn cael eu hystyried o dan ofynion mawr yn gymhleth, angen mewnbwn arbenigol ac oherwydd bod angen eu hystyried yn drylwyr er mwyn sicrhau y caiff effeithiau eu rheoli'n briodol. Ni all y materion sydd i'w hystyried o dan y gofynion hyn gael eu penderfynu'n briodol gan swyddog cynllunio a bydd gofyn cael mewnbwn gan amryw o adrannau'r Cyngor ac ymgynghorwyr arbenigol. O ystyried bod y galw ar swyddogion ar draws y Cyngor i ystyried ac ymateb i'r ceisiadau hyn yn y cyfnod byr o amser a ganiateir yn golygu bod rhaid darparu adnodd priodol ar gyfer y galw hwnnw, ystyriwyd bod y terfynau a gynigiwyd gan HNP yn annigonol. Er enghraifft, byddai £2,028 ar gyfer categori 2 yn llawer rhy isel i ystyried dyluniad manwl yn ymwneud â thirffurf, tirlunio, goleuo a phlannu yn cynnwys yr effaith ar yr AHNE a'r Arfordir Treftadaeth, cymunedau ac asedau treftadaeth.

Mae CSYM felly'n cyflwyno'r sylw fod y terfyn ffioedd a gynigir gan Horizon mor isel fel nad ydynt yn addas i bwrpas. Mae gofyniad WN1 yn gofyn am gyflwyno, ymysg pethau eraill, gynlluniau ar gyfer Lliniaru Archeolegol, Cynllun Draenio Adeiladwaith Cyffredinol, Monitro a Lliniaru Hydro-ecolegol SoDdGA a'r Cynllun Goleuo Adeiladwaith Cyffredinol i'w cymeradwyo. Gellid cyflwyno'r rhain fel un cais i'w cyflawni gyda ffi derfyn o £2,028; fodd bynnag, byddai'r ffi arwynebedd cyn gosod y terfyn yn £952,380 (4070 uned 0.1ha x £234). Ar gyfer ceisiadau o dan ofyniad WN3, gallai un adeilad yn unig fod yn uwch na'r terfyn ffi a gynigir gan Horizon. Fel enghraifft, mae'r paramedrau ar gyfer yr adeilad cynnal a chadw (0-226) yn caniatáu i hyn fod yn 100m x55m (yn ôl tabl WN4A), sy'n creu arwynebedd llawr o 5,500 $m^2$. Gan dybio mai adeilad un-llawr yn unig ydyw (er yr uchder o 20m), byddai'r terfyn ffi yn cael ei gyrraedd dim ond ar yr un adeilad hwn. Mae hyn oherwydd, pan fo'r arwynebedd llawr a grëir yn uwch na 3,750$m^2$, mae'r ffi a fyddai'n ddyledus yn £22,859 ynghyd â £138 fesul 75$m^2$ ychwanegol hyd at derfyn o £100,000; felly yr arwynebedd llawr mwyaf posib y gellir codi tâl amdano cyn daw'r terfyn yn gymwys yw 4,309$m^2$. Byddai modd creu'r holl arwynebedd llawr yna mewn dim ond un adeilad, sy'n dangos bod y terfynau yn anghymesur o fach ar gyfer graddfa'r datblygiad.

Gan na 'cyflawni' ac nid delio gyda ceisiadau newydd mae'r Cyngor, mae'r terfynau ffioedd a gynigir gan CSYM

wedi eu cyfyngu i tua 2/3 o'r terfynau ar gyfer ceisiadau oherwydd ystyrir fod hyn yn adlewyrchu'n well raddfa a chymhlethdod y ceisiadau hyn.

Yng nghyswllt y gofynion bach, er efallai fod y rhain yn 'fach' yn nhermau'r cynllun hwn, mae'r rhain eto yn geisiadau mawr iawn mewn gwirionedd, ac mae angen llawer iawn mwy o waith ac ystyriaeth ar eu cyfer nag y byddai ffi o £234 yn ei ganiatáu. Byddai'r ffi honno yn cael ei chodi ar lofnodi manylyn bach ar annedd-dy sengl – o ran graddfa a chymhlethdod, bydd y gofynion bach ar gyfer y prosiect hwn ar raddfa cwbl wahanol ac mae gofyn adlewyrchu hynny yn y ffi.

***- Amserlenni***

Mae CSYM yn dal i ystyried bod yr amserlenni a gynigir ar gyfer cyflawni'r gofynion yn rhy fyr o ystyried lefel y deunydd a'r cymhlethdod a allai fod ynghlwm â rhai o'r gofynion hyn.

Mae CSYM wedi cynnig amserlenni amgen yn flaenorol (Sylwadau Ysgrifenedig CSYM REP2-218 Adran 8.3).

Nid yw CSYM yn ystyried bod Hinkley yn gymhariaeth deg lle roedd y gwaith ar gyflawni gofynion yn cael ei gefnogi gan y datblygwr tu allan i'r drefn DCO ac felly cawsai adnoddau eu dyrannu er mwyn gwneud y gwaith hwn. Nid yw Horizon wedi gwneud cynnig o'r fath yn yr achos hwn a bydd rhaid i'r adnoddau ddod gan y Cyngor i ategu'r ffioedd bychain iawn a gynigir gan Horizon ar hyn o bryd. Maent felly'n gofyn i'r Cyngor wneud gwaith o fewn cyfnod byr iawn o amser heb unrhyw gyllid i sicrhau mewnbwn arbenigol neu gymorth allanol.

Mae CSYM yn gofyn i'r amser ar gyfer ystyriaeth gael ei newid o 35 diwrnod i 8 wythnos ar gyfer gofynion bach ac o 56 diwrnod i 12 wythnos ar gyfer gofynion mawr lle nad oes angen unrhyw wybodaeth amgylcheddol bellach, ac 16 wythnos lle bo angen gwybodaeth amgylcheddol bellach. Mae'r amserlenni hyn wedi eu seilio ar y ffaith fod pob gofyniad yn destun cais a ffi unigol ac nad yw'n bosib cyflwyno un cais i gyflawni nifer o ofynion mawr ar unwaith gydag un ffi, gan na fyddai'r dull hwnnw'n cefnogi'r adnodd sydd ei angen i ymateb i geisiadau o'r fath o fewn yr amser a ganiateir.

Mae CSYM yn cadw at ei safiad hefyd na ddylai'r cyfnod amser i wneud penderfyniad ddal i redeg pan fo'r awdurdod cyflawni yn cynghori Horizon fod pryder yng nghyswllt AEA neu gynefinoedd y mae angen ei ddatrys cyn gellir bwrw ymlaen â rhyddhau'r cais. Cafodd hyn ei amlinellu'n fanwl yn adran 9 Sylwadau Ysgrifenedig CSYM [REP2-218]. Mae'r Rheoliadau Cynllunio Isadeiledd (Asesiadau Effaith Amgylcheddol) 2017 yn darparu bod ceisiadau a wneir yn unol â gofyniad DCO y mae'n rhaid eu cymeradwyo cyn gall y cyfan neu ran o'r datblygiad gychwyn yn geisiadau dilynol. Pan dderbynnir cais dilynol mae'n rhaid i'r awdurdod perthnasol (CSYM yn yr achos hwn) fod yn fodlon fod ganddo wybodaeth ddigonol gerbron er mwyn gallu asesu'r cais yn iawn. Os nad yw'r awdurdod perthnasol yn fodlon, mae'r rheoliadau yn darparu bod rhaid i'r awdurdod stopio ystyried ("*suspend consideration*") y cais hyd nes y bodlonir gofynion y rheoliadau, ac ar y pwynt hwnnw gall y cyfnod 16 wythnos redeg eto. Mae CSYM felly'n dal i ddweud bod rhaid iddo allu stopio'r cloc ar geisiadau lle mae angen AEA atodol fel bod modd ei gynhyrchu, ei adolygu, ac ymgynghori'n gyhoeddus arno er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau.

**Gwrthwynebiadau i gaffael gorfodol**

Fel y trafodwyd yn y gwrandawiadau, roedd modd cael gwared â nifer o wrthwynebiadau CSYM i gaffael gorfodol ar ôl cytuno ar ddarpariaethau gwarchodol addas.

Ar yr amod bod darpariaethau gwarchodol yn y ffurflen sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad B y llythyr hwn yn cael eu cynnwys yn y DCO, mae CSYM drwy hyn yn tynnu'n ôl yn ffurfiol yr holl wrthwynebiadau i'r defnydd o bwerau caffael gorfodol dros unrhyw dir y mae ganddo ddiddordeb ynddo yn y DCO.

## 2. Ymarfer Cod Adeiladu

Mae CSYM wedi adolygu'r Ymarferion Cod Adeiladu diwygiedig (Diwygiadau 4) a gyflwynwyd gan HNP erbyn Dyddiad Cau 8 a gall gadarnhau yn dilyn y trafodaethau rhwng CSYM a HNP yn ystod yr wythnos pan gynhaliwyd y Gwrandawiadau ar Faterion Penodol ym mis Mawrth, fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar gynnwys a sylwedd y CoCPs.

Cadarnheir isod beth yw pryderon y Cyngor yn dal i fod, a gellir eu datrys trwy addasiadau pellach i'r CoCPs.

- *Strategaeth Fesul Cyfnod ar gyfer Parcio Ceir*

Mae CSYM yn cadarnhau ei fod yn fodlon y gall gymeradwyo ac felly sicrhau y niferoedd isafswm o lefydd parcio ym mhob un cam o'r prosiect o dan Ofyniad PW7 y DCO. Mae CSYM yn fodlon gyda sgôp y Strategaeth Fesul Cyfnod ar gyfer Parcio Ceir fel y cadarnheir yn Rhan 1 o Atodlen 21.

Mae CSYM yn fodlon bod paragraff 5.3.9 o CoCP Wylfa Newydd (REP8-047), yn cadarnhau y bydd y Strategaeth yn cael ei hadolygu yn chwarterol trwy gydol y cyfnod adeiladu.

Mae CSYM yn gofyn bod y CoCP yn cael ei addasu fel bod rhaid i unrhyw ddiwygiadau i'r strategaeth gael eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan CSYM a bod modd i CSYM ymgynghori â'r Grŵp Ymgysylltu ar Drafnidiaeth.

- *Strategaeth Rheoli Traffig a Thrafnidiaeth – Gorfodaeth*

Mae CSYM yn dal yn anfodlon gyda'r manylder sydd wedi'i gynnwys yn CoCP Wylfa Newydd mewn perthynas ag ymchwilio i ddigwyddiadau o barcio anghyfreithlon a defnyddio lonydd cefn yn hytrach na'r briff ffordd i deithio ('rat running').

Mae paragraff 5.12.4 o'r CoCP yn cadarnhau y dechreuir ymchwiliad i bob digwyddiad lle amheuir parcio anghyfreithlon a defnyddio lonydd cefn i deithio, o fewn 48 awr o'r adeg y cyflwynwyd y gŵyn gychwynnol i Horizon, ac y cwblheir adroddiad terfynol o fewn pum diwrnod gwaith.

Mae'n ofynnol gan CSYM fod cadarnhad yn y CoCP ar ôl derbyn y gŵyn gychwynnol, y dylai'r mater gael ei ymchwilio o fewn 48 awr gan Horizon a bod unrhyw gamau disgyblu priodol wedi eu hadnabod a'u gweithredu o fewn 5 diwrnod. Mae CSYM hefyd yn gofyn bod pob digwyddiad ac ymchwiliad yn cael ei adrodd i CSYM.

- *Diogelu*

Mae CSYM yn derbyn bod gofyniad PW7 yn golygu bod angen cyflwyno Cynllun Rheoli Diogelwch Adeiladu (CSMS) i CSYM ar gyfer ei gymeradwyo cyn cychwyn ar y datblygiad a awdurdodwyd. Mae Atodlen 1 yn cadarnhau y bydd y CSMS yn cael ei baratoi'n unol ag adran 3.4 CoCP Wylfa Newydd a hynny mewn ymgynghoriad â Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

Fodd bynnag, fel y cadarnhawyd eisoes, tra bod CSYM yn croesawu'r ffaith fod diogelu wedi cael ei gynnwys fel pwnc yn y CoCP ynghyd â'r ymrwymiad i gydweithio ar ddatblygu cynllun rheoli diogelwch cymunedol, nid yw'r manylder angenrheidiol i roi sylw i'r materion diogelu ehangach wedi cael eu cynnwys ym marn CSYM.

Ynghlwm yn Atodiad A, mae'r darnau y mae'r Cyngor yn dymuno iddynt gael eu cynnwys yn y CoCP a'r Strategaeth Rheoli Gweithlu er mwyn sicrhau y bydd y CSMS yn cael ei ddrafftio mewn modd sy'n rhoi'r sylw gofynnol i faterion sy'n ymwneud â diogelu.

- *Ymlusgiaid*

Mae CSYM yn cydnabod bod manylion yr arolwg yn yr Adroddiad ar yr Arolwg Technegol (TSR) (e.e. yr ardal a arolygwyd; dwysedd y teils; ac ati) wedi cael eu cyflwyno gan Horizon erbyn Dyddiad Cau 5 (Atodiad 1-2) (REP5-056).

Fodd bynnag, mae sawl cyfyngiad ym mhob blwyddyn arolygu ac nid yw'r arolygon a gynhaliwyd yn gynharach yn ymddangos fel petaent yn adlewyrchu'n gyfan gwbl y canllawiau cydamserol ac ymdrechion neu amseriad yr arolwg a'r tywydd. Mae'r arolygon a gynhaliwyd yn ddiweddarach yn fwy cadarn ac o'r herwydd mae'n bosib fod yr asesiad 'maint dosbarth' yn gywir, ond nid yw CSYM yn meddwl bod y data mor gadarn ag a awgrymwyd ac y gellir cyfiawnhau ymagwedd ragofalol yn hyn o beth.

Mae potensial yn yr LHMS i sicrhau bod y boblogaeth o ymlusgiaid (gwiberod yn bennaf) yn cynyddu a'u bod yn fwyfwy gwydn dros y tymor hir. Fodd bynnag, mae CSYM o'r farn y bydd angen rhaglen fonitro fwy cadarn er mwyn sicrhau y deellir yr ansicrwydd mewn perthynas â'r poblogaethau a bod y buddion damcaniaethol y mae'r LHMS yn eu darparu yn cael eu cydnabod. Ym marn CSYM, byddai'n briodol cael arolygon monitro

poblogaethau manylach yn enwedig o ystyried yr ansicrwydd sy’n parhau yn y data arolwg cyfredol.

Felly, mae CSYM o’r farn y byddai’n briodol defnyddio technegau ‘dal, marcio ac ail-ddal’ (CMR) fel y gellir cael amcangyfrif mwy dibynadwy o faint a deinameg y poblogaethau (gwiberod yn bennaf, oherwydd yn aml, nid yw’r technegau hyn mor llwyddiannus ar gyfer gwahanol rywogaethau o fadfallod).

Mae CSYM am i’r newidiadau isod gael eu gwneud i’r is-CoCP ar gyfer Safle’r Brif Orsaf Bŵer;

*11.5.1 Bydd arolygon cyn gwneud gwaith adeiladu’n cael eu cynnal dan oruchwyliaeth ECoW. Bydd y rhain yn cynnwys techneg dal-marcio-ail-ddal (CMR) a byddant yn cael eu cynnal ar draws safle’r datblygiad a’r ardal dderbynyddion. Byddant yn cael eu cynnal cyn i’r safle gael ei glirio er mwyn sicrhau gwaelodlin cadarn ar gyfer eu trawsleoli.*

*Gan ddibynnu ar ganlyniadau’r arolygon hynny, bydd neu un fwy o’r tair ymagwedd isod yn cael eu mabwysiadu a fydd yn cydymffurfio â chanllawiau arfer dda perthnasol [RD11]:*

- *mynd ati’n egnïol i drapio a thrawsleoli ymlusgiaid unigol (dull sy’n debygol o gael ei ddefnyddio mewn cynefinoedd o ansawdd uchel i ymlusgiaid a mannau ble gwyddys fod llawer o ymlusgiaid);*
- *archwiliad dinistriol o gynefinoedd gan ECoW (mae hyn yn debygol o ddigwydd mewn cynefinoedd cymhleth megis waliau cerrig sych a chloddiau ac mewn cynefinoedd o ansawdd uchel i ymlusgiaid); neu*
- *ECoW i oruchwylio’r gwaith o glirio’r cynefinoedd. Yn dilyn ail-leoli/dadleoli, bydd y technegau CMR yn cael eu gweithredu:*

1. *Bob dwy flynedd ar neu yn ymyl safle derbynyddion ac ardaloedd dadleoli trwy gydol y cyfnod adeiladu.*

2. *Bob dwy flynedd yn yr ardaloedd uchod a chynefinoedd sydd wedi cael eu hadfer / coridorau allweddol yn ystod y cyfnod monitro’n dilyn y gwaith adeiladu (o leiaf 10 mlynedd).*

O ran safle’r ganolfan logisteg, mae CSYM yn gofyn hefyd am i’r dull Trawsleoli a Thrin Cynefinoedd gael ei ddefnyddio er mwyn sicrhau bod ymlusgiaid yn cael eu symud o’r safle cyn cychwyn ar y gwaith adeiladu.

- *Mamaliaid Nodedig*

Mae CSYM wedi gofyn am i’r testun isod gael ei gynnwys yn y CoCP ar gyfer Wylfa Newydd er mwyn darparu camau lliniaru pellach ar gyfer rhywogaethau nodedig.

Bydd mesurau lliniaru pellach yn cael eu defnyddio yn ystod y gwaith adeiladu er mwyn sicrhau bod unrhyw famaliaid sy’n parhau i fod ar y safle neu a fydd efallai’n dychwelyd i’r safle(oedd) yn cael eu gwarchod yn ddigonol. Bydd y mesurau hyn yn cynnwys:

- cyfyngiadau cyflymder er mwyn osgoi niwed i fywyd gwyllt;
- mesurau i osgoi creu llochesi i fywyd gwyllt yn ystod y gwaith adeiladu;
- mesurau i reoli gwastraff (yn y cyfnod gweithredu ac adeiladu) er mwyn osgoi cynnydd mewn fermin;
- gorchuddio a selio (e.e. drwy ddefnyddio tywod) unrhyw gloddfeydd neu ddarparu dihangfa i anifeiliaid sydd wedi cael eu trapio.

## 3. Datganiad Dull Adeiladu – REP8-042 – Manylion Ychwanegol am y Twmpathau

Mae CSYM yn croesawu’r wybodaeth ychwanegol sydd wedi’i chynnwys yn y Datganiad Dull Adeiladu (CMS) mewn perthynas â’r twmpathau.

Gan gyfeirio at Dwmpath B, byddai’r dull sydd wedi’i nodi yn y CMS diwygiedig yn dderbyniol i’r Cyngor oherwydd bydd yn arwain at oleddfau 1:3 parhaol (yn lle rhai 1:2 a 1:1), oddeutu 10m o uchder (+/- 2 fetr mewn mannau), wrth ochr yr A5025, y gellir eu hadu a’u plannu yn fuan yn ystod y cyfnod adeiladu ac ni fyddai angen aflonyddu arnynt eto.

Mae ymateb HNP i Ddyddiad Cau 8 yn cadarnhau, fel y trafodwyd yn ISH ar 4 Mawrth, y senario achos gwaethaf gan ddefnyddio paramedrau uchder mwyaf Parth Adeiladu 3, sef y gallai rhannau o Dwmpath B fod 50m AOD yn erbyn 23m AOD ar hyd rhai rhannau o’r A5025, h.y. gallai Twmpath B fod yn 27m o uchder yn

ystod y cyfnod adeiladu. Nodir fod HNP yn "*bwriadu*" glynu at uchder uchaf o 38m AOD ar gyfer Twmpath B yn ystod y gwaith adeiladu, sy'n golygu y byddai'r Twmpath 14.5m o uchder yn y golygfeydd o dde-orllewin Tregele a 12m o uchder yn y golygfeydd o ogledd-orllewin Tregele. Dim ond y 7m isaf o Dwmpath B y cyfnod adeiladu fyddai'n cael ei blannu a byddai'r rhannau uchaf yn cael eu hail-broffilio ar ddiwedd y cyfnod adeiladu. Nid oedd hyn yn amlwg yn flaenorol, fodd bynnag, gallai'r gwaith ail-broffilio hwyluso dyluniad manwl Twmpath B ar ei ffurf derfynol a chaniatáu iddo fod yn fwy amrywiol nag sy'n cael ei ddangos yn y ffotogyfosodiad o Olygfan 18 yn Atodiad 1-2.

Yn ystod y cyfnod dylunio manwl, bydd CSYM yn gofyn am fwy o wybodaeth ynghylch dyluniad, lleoliad ac edrychiad y 'rhwystrau amgylcheddol' 2m o uchder. Bydd y manylion hyn yn bwysig oherwydd byddant yn cael effaith ar effeithiolrwydd ecolegol a gweledol tebygol y gwaith plannu y bwriedir ei wneud ar y goleddf allanol fel y caiff ei ddangos ar y ffotogyfosodiad yn Atodiad 1-2 ac o bosib ar y sawl a fydd yn defnyddio gwyriadau dros dro a pharhaol Llwybr Arfordirol Cymru (WCP) a fydd yn cael ei ddargyfeirio i stribedyn cul rhwng troed Twmpath B a'r A5025 fel yr eglurir hynny yn yr ymateb.

- Ym marn CSYM, dylai'r Awdurdod Archwilio ofyn am gadarnhad y bydd Horizon yn addasu Twmpath D ac yn gwella llwybr y dramwyfa wreiddiol i Ardd Cestyll.

- Ym marn CSYM dylai'r Awdurdod Archwilio ofyn am gadarnhad y bydd Horizon yn ymrwymo i gwblhau'r gwaith daear, pridd a hadu ar oleddfau gorllewinol a gogleddol Twmpath E yn gynnar yn ystod y cyfnod adeiladu er mwyn lleihau'r effeithiau ar dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

## 4. Arolygon cyn cychwyn ar y Gwaith

- Ymatebion Horizon i Ddyddiad Cau 8 – Camau Gweithredu a nodwyd yn y Gwrandawiadau Pwnc Benodol ar 4-8 Mawrth 2019 –(REP8-011) - Atodiad 1-4 Nodyn Ôl-Gwrandawiad ar Arolygon Cyn Cychwyn ar y Gwaith – mae CSYM yn gofyn am gopi o'r ffotograffau o WNDA a gymerwyd o'r awyr ac y cyfeiriwyd atynt.

- Ymatebion Horizon i Ddyddiad Cau 8 – Camau Gweithredu a nodwyd yn y Gwrandawiadau Pwnc Benodol ar 4-8 Mawrth 2019 –(REP8-011) - Atodiad 1-4 Nodyn Ôl-Gwrandawiad ar Arolygon Cyn Cychwyn ar y Gwaith ac Atodiad 1-5 Nodyn Ôl-Gwrandawiad ar Arolygon Coed ar yr A5025 – mae CSYM yn gofyn i Horizon ymrwymo i adolygu a diweddaru'r arolygon gwrychoedd cyfredol ar gyfer y cyfleuster Parcio a Theithio a gwaith oddi ar lein ar briffordd y A5025 drwy ddiwygio'r CoCPau.

## 5. Cynnal a Chadw ac Ail-blannu

- Mae angen diweddaru'r is-CoCP (REP8-053) ar gyfer Cyfleusterau'r Orsaf Bŵer oddi ar y Safle er mwyn cydymffurfio â gofyniad OPSF3 [A] is-baragraffau 4) a 5) yn y DCO sy'n cyfeirio at gynnal a chadw gwaith plannu ac ail-blannu "hyd gydol cyfnod gweithredol Cyfleusterau'r Orsaf Bŵer sydd oddi ar y Safle" (h.y. nid ond am y cyfnod 10 mlynedd y cyfeirir ato yn y CoCP).

- CoCP (REP8-047) Wylfa Newydd /Is-CoCP Prif Safle'r Orsaf Bŵer (REP8-049) – Dylid defnyddio ffensys gwarchod i farcio pob byffer o gwmpas yr holl goed, prysgwydd a gwrychoedd a fydd yn cael eu cadw ym mhob safle. Mae angen i'r ffensys hyn gael eu gosod cyn dechrau'r cyfnod o Baratoi a Chlirio'r Safle/y cyfnod adeiladu.

- LHMS (REP8-063) – Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth mae CSYM yn argymell y dylid diffinio ffynhonnell leol a rhanbarthol. Mae CSYM yn awgrymu'r diffiniad canlynol:

  *Mae planhigion o ffynhonnell leol yn golygu planhigion sydd wedi eu tyfu o hadau a gasglwyd o blanhigion iach sydd yn tyfu yn ymyl y safle plannu ac mewn amodau amgylcheddol tebyg. Yn ddelfrydol, dylai'r planhigion hefyd fod o darddiad lleol (h.y. yn gynhenid i'r ardal leol a heb eu plannu o stoc sydd wedi cael ei fewnforio), ble mae modd sefydlu hyn. Dylai'r ardal ffynhonnell gynnwys y rhannau hynny o Ynys Môn a Gogledd-orllewin Cymru sydd o fewn Parth Ffynhonnell Leol 303. Dylai'r planhigion gael eu tyfu hefyd yn ymyl ac mewn amgylchiadau amgylcheddol tebyg i'r safle plannu am o leiaf 2 flynedd cyn eu plannu ar y safle er mwyn sicrhau bod y planhigion wedi addasu i'r amgylchiadau lleol*

- Mae LHMS (REP8-063) – Creu Cynefinoedd – Tabl 4.1 wedi cael ei ddiwygio. Dylid diwygio Adran 6.5 i

fod yn gyson â Thabl 4.1

**6. Ymateb Dyddiad Cau 8 Horizon i Gyflwyniadau Ysgrifenedig yr Achos Llafar mewn perthynas â'r Gwrandawiadau Llawr Agored ar 5 Mawrth (REP8-012) –**

- Troad Bwlch (Cyffordd 23a/24) i Gylchfan WNDA – Mae paragraff 2.9.1 yn cadarnhau bod darpariaeth wedi'i chynnwys yn y TCPA Ar-lein i greu ardal adeiladu wrth ochr yr A5025 ar gyfer darparu llwybr beicio/llwybr troed cyfun yn y dyfodol i gysylltu NCN566 (y Llwybr Copr) gyda'r Fynedfa newydd i Orsaf Bŵer WNDA. Bydd y gwaith o adeiladu'r rhan hon o'r llwybr troed yn cael ei wneud a'i gwblhau fel rhan o'r Gwaith Gwella Priffyrdd Oddi-ar Lein ar yr A5025 yn y DCO.

Nid yw CSYM yn siŵr am y modd y bydd hyn yn cael ei ganiatáu, ei reoli neu ei sicrhau oherwydd mae'r llwybr y tu allan i gyfyngiadau'r gorchymyn. Dylid ychwanegu'r Llwybr Beicio/llwybr troed hwn at y cynlluniau Hawliau Tramwy Cyhoeddus a sicrhau trwy ofyniad ei fod yn cael ei gyflawni.

- Cylchfan Newydd WNDA i Dregele a Chemaes – Mae paragraff 2.10.1 yn cadarnhau bod ymrwymiad yng Nghôd Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd, cyfeirnod 8.6 Paragraff 6.2.11, i ddarparu llwybr beicio/llwybr troed penodol rhwng yr NCN566 cyfredol (Y Llwybr Copr) yng Nghemaes a Chroesfan Ffordd Nanner. Bydd y rhan hon o'r llwybr beicio/llwybr troed yn dilyn cyfeiriad Llwybr Arfordirol Gogledd Cymru wedi iddo gael ei ddargyfeirio, a hynny i'r de o'r Gylchfan wrth y Fynedfa i'r Orsaf Bŵer, gan gwblhau'r cysylltiad i'r NCN566 sydd wedi ei dargyfeirio o Gyffordd Bwlch. Rhaid i Horizon gydymffurfio â Chôd Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd drwy gydol y gwaith o adeiladu'r datblygiad a awdurdodwyd (Gofyniad PW7) ac o'r herwydd byddai rheidrwydd arno i adeiladu'r llwybr beicio/llwybr troed penodol hwn. Mae CSYM yn gofyn i'r ymrwymiad hwn gael ei gynnwys yn y Cynlluniau Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

**7. Storio a Phrosesu'r Darganfyddiadau/Gweddillion Archeolegol**

Mae CSYM yn croesawu'r ffaith y cafodd yr Adroddiadau Cryno a'r Cynlluniau Archeoleg eu cyflwyno gan HNP ar gyfer Dyddiad Cau 8.

Yn dilyn y Gwrandawiadau Pwnc Benodol ym mis Mawrth, mae CSYM yn cadarnhau ei fod wedi derbyn cadarnhad gan Horizon bod y cyfan o'r darganfyddiadau archeolegol wedi cael eu dychwelyd i gyfleusterau storio ar yr Ynys ac y byddant yn cael eu harchwilio'n rheolaidd. Mae'r Cyngor yn gobeithio trefnu ymweliad i'r cyfleusterau yn y man er mwyn cadarnhau eu bod yn cynnig yr amgylchedd angenrheidiol ar gyfer storio'r darganfyddiadau.

Mae HNP wedi cadarnhau y byddant yn awr yn contractio archeolegwyr i brosesu, archifo ac asesu'r holl ddarganfyddiadau archeolegol gan gynnwys gweddillion dynol yn unol â Safonau a Chanllawiau cydnabyddedig Sefydliad Siartredig yr Archeolegwyr (CifA). Cafwyd ar ddeall fod HNP yn anelu at gwblhau'r gwaith hwn erbyn mis Hydref 2019.

Mae'r Cyngor yn falch fod yr holl ddarganfyddiadau bellach wedi cael eu dychwelyd i'r Ynys i'w storio a bod contractau bellach yn cael eu sefydlu ar gyfer prosesu, archifo ac asesu'r darganfyddiadau'n unol â chanllawiau a safonau ymarfer. Mae CSYM yn awr eisiau ymgysylltu ymhellach gyda Horizon er mwyn cytuno ar y rhaglen ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn a fydd yn cynnwys asesu, dadansoddi, adrodd ar, archifo a lledaenu'r darganfyddiadau.

Mae angen y manylion hyn er mwyn darparu eglurder a sicrwydd mewn perthynas â'r gwaith maes archeolegol a wnaed ar draws Ardal Ddatblygu Wylfa Newydd ac mae'n cyd-fynd â'r sicrwydd ysgrifenedig a gafwyd gan HNP yn flaenorol a'r Cynllun Ymchwilio a arweiniwyd gan y safonau a osodwyd gan y Sefydliad Siartredig ar gyfer Archeolegwyr.

Mae'r Cyngor yn ymrwymo i barhau i ymgysylltu a chydweithio er mwyn sicrhau canlyniad boddhaol er mwyn sicrhau bod unrhyw niwed i'r asedau treftadaeth hyn yn cael ei osgoi.


**8. Trefniadau Mynediad wrth gyffordd WNDA – colli'r lle troi presennol i gerbydau**

O ganlyniad uniongyrchol i weithredu'r trefniadau ar gyfer mynediad wrth gyffordd WNDA, bydd y lle troi


presennol i gerbydau (a ddangosir isod gyda chylch coch o'i amgylch) yn cael ei golli.



I wneud i fyny am y golled hon, mae CSYM yn gofyn am gael darparu ardal droi newydd (amgen) ar gyfer cerbydau ger y gilfan bresennol fel rhan o'r gwaith o baratoi mynedfa wrth gyffordd WNDA. Dangosir isod leoliad y lle troi newydd ar gyfer cerbydau.




Fel y gellir  categoreiddo'r man troi arfaethedig hwn yn briffordd gyhoeddus, byddai angen ymestyn y llinell biws doredig (Llinell ganol y briffordd arfaethedig) ar y Cynllun Hawliau Ffordd.




Mae trafodaeth wedi datblygu rhwng CSYM a HNP mewn perthynas â'r mater hwn a daethpwyd i gytundeb sy'n gyson â'r cynnig uchod.

Roedd CSYM yn disgwyl i'r cynlluniau perthnasol gan gynnwys Rhan 9 – Gwelliannau oddi ar lein i Briffyrdd yr A5025 – Aliniad Cyffredinol Arfaethedig y Gyffordd gyda Ffordd Fynediad yr Orsaf Bŵer WN0902-HZDCO-OHW-DRG-00063 Adolygiad 4.0 (2.6.1 WNDA – Cynlluniau Safle yr Orsaf Bŵer REP8-027) a Rhan 9 – Gwelliannau oddi ar lein i Briffyrdd yr A5025 – Hawl Ffordd wrth Gyffordd Ffordd Fynediad yr Orsaf Bŵer WN0902-HZDCO-ROW-DRG-00030 (2.4 Adolygiad o'r Cynlluniau Hawl Ffordd 3.0 REP8-024) fod wedi cael eu diweddaru gan HNP yn eu cyflwyniad ar gyfer Dyddiad Cau 8 fel y gallai'r DCO ganiatáu'r cynnig hwn.

Mae CSYM yn gofyn am i'r cynlluniau y cyfeirir atynt uchod ac unrhyw gynlluniau perthnasol eraill i gael eu diwygio er mwyn darparu ar gyfer y cynnig hwn.

## 9. Strategaeth Fesul Cyfnod

Mae CSYM yn cadarnhau iddo gael sgwrs ar y ffôn gyda HNP ar 2 Ebrill 2019 i drafod pryderon y Cyngor gyda'r Strategaeth Fesul Cyfnod a gyflwynwyd ar gyfer Dyddiad Cau 8 (REP8-069).

Roedd HNP yn cydnabod pryderon y Cyngor ac yn cydnabod bod y Strategaeth Fesul Cyfnod, fel y cawsai ei drafftio, yn cynnwys rhai anghysondebau yn enwedig rhwng y graddoli arwyddol (ffigwr 2-1) a'r sbardunau arfaethedig. O ran cyflawni Campws y Safle, mae'r cynllun graddoli arwyddol ar gyfer cyfnodau'r gwaith yn dangos y bydd y campws yn cael ei gyflawni'n llawer cynharach nag sydd ei angen o ran y sbardunau a gadarnhawyd i gwrdd â'r galw.

Yn dilyn y sgwrs ffôn, cytunwyd y byddai Horizon yn adolygu ymhellach y Strategaeth Fesul Cyfnod ar gyfer ei chyflwyno erbyn Dyddiad Cau 9. Mae'r Cyngor yn disgwyl i'r fersiwn ddiwygiedig gynnwys cerrig milltir clir (blynyddoedd a chwarteri) ar gyfer pob un o'r camau lliniaru allweddol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni ar amser er mwyn lliniaru'r effeithiau.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau y bydd yn adolygu'r fersiwn ddiwygiedig unwaith y bydd ar gael yn ystod Dyddiad Cau 9 a bydd yn cyflwyno ei sylwadau yn ystod Dyddiad Cau 10.

## 10. Diweddariad ar yr y cytundeb adran 106

Mae CSYM yn cydnabod yr ymdrech a'r amser sylweddol a roddwyd i'r cytundeb adran 106 yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae Pŵer Niwclear Horizon wedi ymgysylltu'n eang gyda CSYM a chydran-ddeiliaid ac mae'r cytundeb adran 106 wedi symud yn ei blaen o ran manylder.

**11. Rheol 17 – Cais am Wybodaeth Bellach**

Caiff ymateb y Cyngor i Reol 17 ei gynnwys yn Atodiad D.

**Yn Gywir**

[redacted]

**DYLAN J. WILLIAMS**
Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Head of Service - Regulation and Economic Development